

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cyllid

Mehfin 2020

## 1. Cefndir

### Bil Cyllid Llywodraeth y DU

1. Cafodd Bil Cyllid Llywodraeth y DU (y Bil)<sup>1</sup> ei ddarllenid cyntaf ar 17 Mawrth 2020. Fe'i noddir gan Drysorlys EM.
2. Diben y Bil yw cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas ag ystod eang o bolisiau a gyflwynwyd yng Nghyllideb 2020 Llywodraeth y DU, gan gynnwys adnewyddu trethi blynyddol, cyflwyno cynigion treth newydd a chynnal trefniadau gweinyddu'r system dreth.

### Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol oherwydd bod darpariaethau yn y Bil yn addasu neu'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
4. Ar 13 Mai 2020, gosododd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd<sup>2</sup> mewn perthynas â'r Bil.
5. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid lunio adroddiad ar y Memorandwm erbyn 2

<sup>1</sup> Bil Cyllid (Bil Tŷ'r Cyffredin 114), fel y'i cyflwynwyd

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Cyllid, Mai 2020



Gorffennaf 2020.<sup>3</sup> Yn dilyn hynny, newidiodd y Pwyllgor Busnes y dyddiad cau i 18 Mehefin 2020.<sup>4</sup>

## Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

---

- 6.** Mae paragraffau 6 i 10 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau sydd angen cydsyniad.
- 7.** Mae'r Memorandwm yn esbonio bod cymal 93, sy'n ymwneud â chodi tâl am ddyrannu lwfansau o dan gynlluniau masnachu lleihau allyriadau, yn cynnwys darpariaethau sy'n gofyn am gydsyniad.
- 8.** Mae cymal 93(1) yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer dyrannu lwfansau allyriadau yn gyfnewid am daliad o dan System Masnachu Allyriadau'r DU yn y dyfodol.
- 9.** Mae cymal 93(2) yn darparu enghreifftiau o faterion y gall rheoliadau o'r fath ddarparu ar eu cyfer. Mae cymalau 93(3) a (4) yn caniatáu i Lywodraeth y DU lunio cynlluniau sy'n nodi manylion gweithrediad a thelerau dyraniadau yn gyfnewid am daliad, gan nodi'n benodol pwy all gymryd rhan, y lwfansau y gellir eu dyrannu a phryd a lle y gwneir dyraniadau.
- 10.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

“Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn berthnasol i ddiogelu'r amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd..”<sup>5</sup>
- 11.** Nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad. Mae'r tabl ar dudalen 201 o Nodiadau Esboniadol y Bil yn nodi, er bod cymal 93 yn ymestyn i Gymru ac yn berthnasol i Gymru, nid yw Llywodraeth y DU o'r farn y byddai darpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd y Senedd.<sup>6</sup>
- 12.** Mae paragraffau 11 i 13 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

---

<sup>3</sup> Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Cydsyniad Deddfwriaethol Memorandwm ar y Bil Cyllid, Mai 2020

<sup>4</sup> Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid, Mehefin 2020

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 10

<sup>6</sup> Bil Cyllid, Nodiadau Esboniadol, 'Territorial extent and application in the United Kingdom', Mawrth 2020

---

**13.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

“Ar hyn o bryd, mae'r rheini sy'n allyrru'r rhan fwyaf o nwyon tŷ gwyrdr yng Nghymru yn rhan o System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd (“EU ETS”). Bydd angen polisi yn lle'r system honno yn y Deyrnas Unedig ar ôl i'r cyfnod pontio ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ddod i ben. Yn 2018, aeth Llywodraeth Cymru ati ar y cyd â Llywodraethau eraill cenhedloedd y DU i ymgynghori ar Gynllun Masnachu Allyriadau ar gyfer y DU, sef cynllun domestig ar draws y DU yn lle'r EU ETS.”<sup>7</sup>

**14.** Aiff ymlaen i ddweud:

“Er mwyn osgoi bwloch o ran polisi, mae'n hanfodol bod system masnachu allyriadau a fydd yn gweithio, ac a fydd yn cynnwys arwerthu lwfansau, yn dod i rym o'r diwrnod cyntaf ar ôl y cyfnod pontio. O gofio mai'r bwriad yw defnyddio arwerthiannau yng nghyd-destun fframwaith ar gyfer y DU gyfan ac iddo reolau cyffredin ar gyfer pawb ar draws y DU a fydd yn rhan o'r cynllun, mae'n briodol bod y darpariaethau hyn yn cael eu gwneud mewn Bil ar lefel y DU.”<sup>8</sup>

**15.** Daw'r Memorandwm i'r casgliad:

“Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar lefel y DU oherwydd bod angen proses arwerthu gyffredin ar draws y DU ar gyfer cynllun masnachu allyriadau ar draws y DU. Hefyd, mae angen i'r darpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ar draws y DU, ac oherwydd bod angen gweithredu ar fyrder, nid oes amser i gyflwyno Bil yng Nghymru”<sup>9</sup>

## 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**16.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 8 Mehefin 2020.<sup>10</sup>

### Ein barn

**17.** Rydym yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam y mae'n credu ei bod yn briodol gwneud darpariaeth i Gymru ym Mil y DU.

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 11

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 13

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 15

<sup>10</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaethol Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Mehefin 2020](#)

**18.** Nodwn mai barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad y Senedd ar ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn is-adrannau (1) i (4) o gymal 93 o'r Bil. Nodwn ymhellach mai barn Llywodraeth y DU yw nad oes angen cydsyniad.

**19.** Rydym yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru. Yn ein barn ni, mae darpariaethau perthnasol cymal 93 yn ymwneud â phwrrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn unol ag adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac felly dylid ceisio cydsyniad y Senedd.